

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cynllun Pensiwn yr Aelodau

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygrych, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:

Cyfathrebu'r Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ar-lein: **www.cynulliad.cymru**
E-bost: **cysylltu@cynulliad.cymru**
Ffôn: **0300 200 6565**

Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cynllun Pensiwn yr Aelodau

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynnwys

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 i aelodau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru	1
Aelodaeth	4
Adroddiad buddsoddi – ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015	8
Datganiad yr Actiwari – yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2015	15
Datganiad am gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr.....	17
Datganiad yr Archwilydd Annibynnol	19
Datganiad llywodraethu	20
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru	24
Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015.....	25
Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon	27
Datganiad cydymffurfio	31

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 i aelodau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cefndir deddfwriaethol Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynllun")

Sefydlwyd y Cynllun o dan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Adran 20(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi dilyniant i'r Cynllun. Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Datblygiadau yn ystod y flwyddyn

Mae Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Bwrdd") yn gyfrifol am bennu cyflogau, lwfansau a phensiynau Aelodau'r Cynulliad. Mae adolygiad y Bwrdd o bensiynau'r Aelodau yn parhau a chyhoeddodd ei "Ymgynghoriad ynghylch trefniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol" ym mis Ebrill 2014 ac ym mis Gorffennaf 2014. Ym mis Mawrth 2015, cyhoeddodd y Bwrdd Adroddiad ar Benderfyniad drafft y Pumed Cynulliad. Gan nad yw'r Bwrdd yn rhagweld y ceir cymeradwyaeth ffurfiol gan Drysorlys Ei Mawrhydi tan yn ddiweddarach eleni, mae wedi cyhoeddi prif fuddion Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad newydd ac, yn amodol ar gafeat, maent yn cynnig gostyngiad sylweddol yn y gost o ariannu pensiynau'r Aelodau. Bydd gostyngiad cyfwerth ag oddeutu 7.2% o gyflogau cyfanredol yr Aelodau yng nghyfraniad y Cynulliad. Hefyd, bydd yn rhaid i gyfraniadau'r Aelodau i'r Cynllun Pensiwn godi. Mae'r Ymddiriedolwyr a'u cynghorwyr proffesiynol wedi bod mewn cysylltiad â'r Bwrdd drwy gydol y flwyddyn a byddant yn parhau i wneud hynny drwy gydol yr adolygiad.

Ni fu unrhyw newidiadau i'r rheolau yn ystod y flwyddyn.

Ymddeolodd Mr Roger Beale, yr Ysgrifennydd Cynorthwyol, ar 31 Rhagfyr 2014. Diolchodd yr Ymddiriedolwyr am safon ei gyngor dros y cyfnod y bu'n gwasanaethu ar y bwrdd gan ddymuno pob hapusrwydd iddo yn ystod ei ymddeoliad. Penodwyd Donna Davies yn Bennaeth Pensiynau a bu'n bresennol yn ei chyfarfod Ymddiriedolwyr cyntaf ar 23 Mawrth.

Nod yr adroddiad hwn

Mae'r Cynllun wedi'i eithrio o'r gofyniad a nodir yn Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Datgelu Gwybodaeth) 1996 i baratoi adroddiad a chyfrifon archwiliedig cyn pen saith mis ar ôl diwedd y flwyddyn gyfrifyddu. Bwriad yr Ymddiriedolwyr yw cydymffurfio ag ysbryd y deddfwriaeth hon drwy ddatgelu gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys manylion actiwaraid a manylion cyfrifyddu, i bob aelod o'r Cynllun cyn pen 3 mis ar ôl ardystio'r cyfrifon archwiliedig yn unol ag Atodlen 1 paragraff 13 o Reolau'r Cynllun.

Yr ymddiriedolwyr

Dyma'r Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn ac ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blyneddol:

- William Graham AC (Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr)
- David Melding AC
- Jocelyn Davies AC
- Mike Hedges AC
- Peter Black AC
- Gareth Jones (**Ymddiriedolwr Bensiynwr**)

Gweinyddu'r Cynllun

Ysgrifenyddiaeth y Cynllun sy'n gweithredu'r Cynllun o ddydd i ddydd fel rhan o Wasanaethau Ariannol Comisiwn y Cynulliad.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am bensiynau neu gais am wybodaeth ychwanegol at yr Ysgrifenyddiaeth yn y cyfeiriad a ganlyn:

Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Gwasanaethau Ariannol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

- **Nicola Callow - Ysgrifennydd y Cynllun**
Ffôn: 0300 200 6522 ac e-bost nicola.callow@cynulliad.cymru
 - **Donna Davies – Pennaeth Pensiynau (ers 16 Mawrth 2015)**
Ffôn: 0300 200 6523 ac e-bost: donna.davies@cynulliad.cymru
 - Lisa Bowkett - Cyfrifydd Rheoli
Ffôn 0300 200 6524 ac e-bost lisa.bowkett@cynulliad.cymru
 - **Liz Calder - Rheolwr Pensiynau**
Ffôn: 0300 200 6528 ac e-bost: liz.calder@cynulliad.cymru
- Ffacs: 0300 200 6523

Incwm y Gronfa

Mae incwm y Gronfa yn deillio o'r ffynonellau a ganlyn; cyfraniadau gan aelodau gweithredol y Cynulliad a chan Gomisiwn y Cynulliad, sef y cyflogwr.

Mae Aelodau a Deiliaid Swyddi yn cyfrannu 10% o'u cyflogau os ydynt yn cronni buddion ar sail deugeinfed a 6% o'u cyflogau os ydynt yn cronni buddion ar sail hanner canfed. Mae Comisiwn y Cynulliad, sef y cyflogwr, yn cyfrannu 23.8% o gyflogau pensiynadwy at y cynllun sylfaenol a'r cynllun Deiliaid Swyddi. Y cyfraddau hyn sydd ar waith ers 1 Ebrill 2009 ac, yn dilyn y pumed prisiad tair blynedd ar 1 Ebrill 2014, byddant yn parhau.

Prisiad actiwaraid

Mae'n ofynnol i Actiwari'r Cynllun baratoi adroddiad ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Gronfa bob tair blynedd a gwneud argymhellion ar gyfradd cyfraniad Comisiwn y Cynulliad yn y dyfodol. Cwblhawyd y pumed prisiad tair blynedd ar 1 Ebrill 2014 a gosodwyd yr adroddiad ddydd Gwener 1 Mai 2015, yn unol â rheolau'r Cynllun.

Roedd datganiad yr Actiwari, dyddiedig 26 Mawrth 2015, yn argymhell y dylid parhau â'r gyfradd cyfrannu o 23.8% o gyflog pensiynadwy'r Aelodau. Mae'r gyfradd hon yn cyfateb i'r swm sy'n ofynnol i dalu costau'r Cynllun, o gofio'r buddion a'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r Aelodau ac mae'n ystyried gwasanaeth presennol a gwasanaeth yn y dyfodol.

Mae'r dystysgrif ddilynol, dyddiedig 11 Mai 2015, (tudalennau 15 i 16) yn cadarnhau bod cyfraniad Comisiwn y Cynulliad, sef 23.8%, yn ddigonol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r lefel ariannu bresennol yn ddigonol i dalu am y buddion presennol. Mae'r datganiadau hyn yn seiliedig ar asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun ar y dyddiad prisio. Mae'r datganiadau hyn yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Nodyn Cyfarwyddyd GN9 y Sefydliad Actiwariad a'r Gyfadran Actiwariad.

Disgwylir y prisiad tair blynedd nesaf ar 1 Ebrill 2017.

Aelodaeth

Aelodau gweithredol

Aelodau gweithredol ar 1 Ebrill 2014 61

(60 Aelod Cynulliad a'r Cwnsler Cyffredinol.

O'r 61 aelod mae 39 ohonynt yn Ddeiliaid Swyddi.)

ynghyd ag: Aelodau newydd yn ystod y flwyddyn 0

llai: Aelodau sydd wedi gadael yn ystod y flwyddyn 0

Aelodau sydd wedi ymddeol yn ystod y flwyddyn 0

Aelodau a fu farw yn y swydd ar 31 March 2015 0

Aelodau gweithredol ar 31 Mawrth 2015 61

Aelodau sy'n gohirio cymryd eu pensiwn

Aelodau sy'n gohirio cymryd eu pensiwn ar 1 Ebrill 2014 22

ynghyd ag: Aelodau a adawodd gan gadw'u hawl i ohirio cymryd eu pensiwn 0

llai: Aelodau a hawliodd eu pensiwn gohiriedig 1

Aelodau sy'n gohirio cymryd eu pensiwn ar 31 Mawrth 2015 21

Pensiynwyr sy'n derbyn tâl

Pensiynwyr a oedd yn derbyn tâl ar 1 Ebrill 2014 33

ynghyd ag: Aelodau sy'n ymddeol yn ystod y flwyddyn 0

ynghyd ag: Aelodau a hawliodd eu pensiwn gohiriedig 1

ynghyd ag: Aelodau sydd â dibynyddion newydd 0

llai: Aelodau a fu farw yn ystod y flwyddyn 0

Pensiynwyr a oedd yn derbyn tâl ar 31 Mawrth 2015 34

Datgelir manylion y taliadau a wnaed o'r Cynllun yn ystod y flwyddyn yn Nodyn 6 sy'n cyd-fynd â'r cyfrifon. Ers 7 Ebrill 2014, bu cynnydd o 2.7% yn y pensiynau sy'n cael eu talu, yn unol â Gorchymyn Cynyddu Pensiynau (Adolygu) 2014.

Paratoi ac archwilio'r Cyfrifon Blynnyddol

Caiff y cyfrifon eu paratoi'n unol â'r Datganiad Arferion a Argymhellir (SORP), Adroddiadau Ariannol Cynlluniau Pensiwn (diwygiwyd Mai 2007), cyn belled ag y bo hynny'n briodol.

Caiff y cyfrifon hyn eu paratoi gan swyddogion y Cynulliad, ar ran yr Ymddiriedolwyr, a'u harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cânt eu paratoi a'u harchwilio o dan Adrannau 41 (1) a (6) o Ddeddf Pensiynau 1995 ac yn unol ag OS 1996/1975 Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i dderbyn Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd).

Bydd y cyfrifon archwiliedig yn cael eu gosod gerbron y Cynulliad cyn pen 3 mis ar ôl llofnodi a chyhoeddi Datganiad yr Archwilydd.

Mae copïau o'r cyfrifon hyn ar gael gan yr Ysgrifenyddiaeth os gwneir cais amdanynt.

Crynodeb o'r wybodaeth ariannol

Yr incwm yn ystod y cyfnod oedd £1,409,569 (£1,407,073 yn 2013-2014), a gwariant y Cynllun oedd £487,611 (£643,639 yn 2013-2014). Asedau net y Cynllun ar 31 Mawrth 2015 oedd £29,028,245 (£25,487,690 ar 31 Mawrth 2014).

Yn ystod y cyfnod, rhoddwyd cyfanswm o £931,651 o fuddsoddiad newydd i Reolwyr y Gronfa i'w fuddsoddi yn y Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol a Chronfa Bensiwn Fynegrifol Baillie Gifford. Cyfanswm gwerth y Gronfa ar y farchnad ar 31 Mawrth 2015 oedd £28,580,104 (£25,030,609 ar 31 Mawrth 2014).

Ar 31 Mawrth 2015, roedd cyfanswm o £352,572 (£350,509 ar 31 Mawrth 2014) yn un o gyfrifon cadw'r Trysorlys ac roedd banc y Cynllun yn ennill llog yn seiliedig ar gyfraddau'r farchnad ariannol ar y pryd. Caiff yr arian hwn ei gadw at ddibenion hunanyswiro.

Buddsoddiadau

Mae'r holl fuddsoddiadau mewn daliannau a ganiateir o dan reoliadau'r Cynllun ac na chânt eu gwahardd gan yr Ymddiriedolwyr.

Nid yw maint asedau'r Cynllun yn ddigon i greu portffolio o fuddsoddiadau amrywiol iawn pe bai'r asedau'n cael eu buddsoddi'n uniongyrchol mewn bondiau, stociau a chyfranddaliadau. Felly, nes i'r asedau dyfu'n ddigon mawr, mae'r Ymddiriedolwyr yn credu mai'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau amrywiaeth briodol wrth fuddsoddi asedau, a hynny am gost resymol, yw drwy ddefnyddio ymddiriedolaethau buddsoddi neu gwmnïau buddsoddi penagored.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl i'r buddsoddiadau greu elw sy'n ganolog neu'n fwy ar gyfer eu sector o'u mesur yn erbyn cronfeydd pensiynau cyfun tebyg. Disgwylir hefyd i'r buddsoddiadau greu elw sy'n fwy na chwyddiant prisiau ac i'r gwahaniaeth rhwng y ddau fod yn ddigon i sicrhau y gellir darparu buddion y Cynllun yn unol â chyfrifiadau actiwaraid y Cynllun.

Polisi buddsoddi

Yr Ymddiriedolwyr sy'n pennu Polisi Buddsoddi'r Cynllun a chaiff ei adolygu o bryd i'w gilydd. Mae'r polisi sydd ar waith ar 31 Mawrth 2015 i'w weld yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, sydd wedi'i fabwysiadu gan yr Ymddiriedolwyr a gall Aelodau wneud cais i Ysgrifenyddiaeth y Cynllun i'w weld. Nid yw'r polisi'n caniatáu unrhyw fuddsoddiad cysylltiedig â'r cyflogwr.

Dyma'r amcanion o ran perfformiad y cronfeydd buddsoddi:

Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford – perfformio 1.0 – 1.5% (gros) yn well bob blwyddyn na Chronfa Gronedig Ganolrif CAPS Gytbwys dros gyfnodau treigl o dair blynedd

Dros y 3 mlynedd diwethaf bu cynnydd o 11.6% yng nghyfradd enillion blyneddol y Gronfa Bensiwn Reoledig o'i gymharu â meincnod o 10.4 %.

Cronfa Bensiwn Fynegrifol Baillie Gifford - perfformio 1.5% (gros) yn well bob blwyddyn na'r enillion ar Fynegai Gilt Mynegrifol 5 mlynedd Actiwarau'r FT dros gyfnodau treigl o dair blynedd. Er y perfformiodd y gronfa gilt hon islaw'r meincnod, roedd yn dal yn gymharol gryf, ac yn well na chyfradd ostyngol y prisiad. Mae enillion absoliwt bondiau mynegrifol y DU wedi perfformio'n eithriadol o dda dros y tair blynedd diwethaf. Roedd enillion Cronfa 'Gilt Plus' Mynegrifol BG Active islaw'r meincnod dros y cyfnod a hynny'n bennaf oherwydd sefyllfa'r gronfa mewn economïau a oedd yn dibynnu ar

olew yn 2014, fel Colombia, Norwy a Rwsia. Dioddefodd perfformiad y Gronfa oherwydd y cwymp sydyn ym mhrisiau olew ddiwedd 2014.

Dros y 3 mlynedd ddiwethaf mae'r Gronfa Bensiwn Fyngryfol wedi perfformio islaw'r meincnod. Cyfradd yr enillion blyneddol oedd 8.5% o'i gymharu â meincnod o 8.9%.

Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford – perfformio 3.5% (gros) y flwyddyn yn well na chyfradd sylfaenol y DU (heb gynnwys ffioedd) dros gyfnodau treigl o bum mlynedd.

Dros y pum mlynedd diwethaf bu cynnydd o 6.5% yng nghyfradd enillion blyneddol y Gronfa Bensiwn Reoledig o'i gymharu â meincnod o 4.0%.

Rheolwr buddsoddi

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penodi Baillie Gifford Life Ltd fel Rheolwr y Gronfa ar gyfer y Cynllun ac mae'r Ymddiriedolwyr wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb o reoli'r buddsoddiadau iddynt hwy.

Mae buddsoddiadau'n cael eu gwneud drwy bolisi pensiwn Baillie Gifford Life Ltd. Prif nodwedd y polisi yw bod y buddion a geir yn hollol ddibynol ar berfformiad asedau'r Gronfa ar ôl eu buddsoddi.

Telir ffi rheoli i Baillie Gifford Life Ltd ar sail canran o gyfanswm gwerth y gronfa ar y farchnad bob blwyddyn: 0.45% yng nghyswllt y Gronfa Bensiwn Reoledig a 0.25% yng nghyswllt y Gronfa Bensiwn Fyngryfol, a 0.65% yng nghyswllt y Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol a gaiff ei ddidynnu o werth y Gronfa bob mis.

Amcangyfrifir mai'r gost o reoli'r gronfa yn 2014-15 oedd £138,644 (£119,859 yn 2013-14)

Mae'r holl asedau yn y cronfeydd myngryfol sy'n cael eu gweithredu gan Baillie Gifford Life Ltd yn eiddo i gwmni yswiriant Baillie Gifford Life, a chânt eu cofrestru yn enw Baillie Gifford Life.

Nid oes gan y Cynllun geidwad gan ei fod yn buddsoddi mewn unedau polisi bywyd nad oes angen ceidwad arno. Ceidwad Baillie Gifford Life Ltd yw Bank of New York, One Canada Square, LONDON, E14 5AL.

Mae Baillie Gifford yn cydnabod bod hawliau a chyfrifoldebau arbennig ynghlwm wrth fod yn berchen ar gyfranddaliadau cwmni ar ran cleientiaid. Ar yr un pryd, mae materion amgylcheddol a chymdeithasol a materion llywodraethu, a'r modd y caiff y materion hyn eu rheoli, yn rhan annatod o gynaliadwyedd busnes. Oherwydd hyn, mae Baillie Gifford yn ystyried materion o'r fath wrth ddadansoddi ac adolygu cwmni, ac mae Tîm Llywodraethu Corfforaethol penodol hefyd yn ysgwyddo'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth fod yn berchen ar gyfranddaliadau ar ran eu cleientiaid.

Maent yn ymdrin â'r materion cymdeithasol ac amgylcheddol sydd ynghlwm wrth fod yn berchen ar gyfranddaliadau drwy ymgysylltu a thrafod â chwmnïau'n hytrach na'u hallgáu. Drwy ddefnyddio ymchwil mewnol ac allanol, maent wedi nodi materion allweddol yn ymwneud â chyfranddaliadau eu cleientiaid ac yn eu trafod â'r cwmnïau dan sylw. Yn y modd hwn, maent yn annog cwmnïau i fonitro'r risgiau a'r cyfleoedd amgylcheddol a chymdeithasol perthnasol sy'n wynebu eu busnesau ac ymdrin â hwy. Maent yn credu y gall y broses hon gyfrannu at werth buddsoddiadau eu cleientiaid yn y tymor hir.


Fel cwmni sydd wedi llofnodi Cod Stiwardiaeth y DU ac Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig (UNPRI), mae Baillie Gifford yn hybu trafodaeth effeithiol rhwng buddsoddwyr a chwmnïau ynghylch materion llywodraethu a materion strategol a, drwy lynu wrthynt, maent yn helpu

i gynnwys materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant mewn penderfyniadau'n ymwneud â buddsoddiadau prif ffrwd ac arferion perchenogaeth.

Dyma'r rhestr o gwmnïau y mae Baillie Gifford wedi ymgysylltu â nhw yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015:

- **Llywodraethu Corfforaethol** - Burberry Group, CVC Credit Fund CyberAgent, Inc., DIA, Kubota CorpNestle, Rakuten, Ryanair Holdings PLC, SAB Miller, Sony Corp, Standard Chartered, Treasury Wine Estates, Yaskawa Electric Corp
- **Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol** - BHP Billiton, Haier Electronics Group Co, Petrofac Ltd, Ryanair holdings
- **Cydnabyddiaeth Weithredol** - Ashtead Credit Group, Brambles Limited, British American Tobacco, Burberry Group, Diploma, Hiscox Ltd, Jardine Lloyd Thompson Group, Markel CorpPrudential, Rakuten, Shopping Centre Australasia, Spirax Sarco Engineering, Standard Chartered, TD Ameritrade Holding Corp
- **Cynigion Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol neu Gyfarfod Cyffredinol Arbennig** - eBay, Alfa Laval, Amazon, American Express Company, Amlin, Ashtead Group, BG Group, BHP Billiton, Burford Capital, Carl Zeiss Meditec, CATCo-Re Ltd., Corporacion Financiera Alba SA, CrediCredit Suisse Nova Lux Global Loans Fund, CyberAgent Inc, Deutsche Wohnen Ag, Diploma, EDP Renovaveis, Fondul Proprietatea, Genomic Health, Google Inc, Harley Davidson, Hiscox, Imagination Technologies Group, Inc., James Hardie, John Iain Environmental Asset, John Wood Group PLC, Jyske Bank AS, JZ Capital Partners Limited, Konecranes, Legal & General Group, MarketAxess, Meggitt, Mesoblast Ltd, Mettler Toledo International, Monsanto Company, Moody's Corp, Pepsico, Prudential, Qualcomm inc, Qunar, Royal Dutch Shell, Ryanair Holdings PLC, Sofina SA, Treasury Wine Estates, UBM PLC, Waters Corporation, Xilinx
- **Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol / Cyfarfod Cyffredinol Arbennig** – Eurazeo


Mae adroddiad buddsoddi'n ymwneud â'r polisïau buddsoddi yn ystod y flwyddyn ac adolygiad o berfformiad buddsoddiadau'r Gronfa yn ystod y flwyddyn, a natur, trefniadau a diogelwch yr asedau i'w gael ar dudalennau 8 - 12. Gwerth y Gronfa Reoledig ar y farchnad ar 31 Mawrth 2015 oedd £12,832,902, sef twf o £1,229,850 dros y flwyddyn; gwerth y Gronfa Bensiwn Fynegrifol ar y farchnad ar 31 Mawrth 2015 oedd £2,942,770, sef twf o £474,797; gwerth y Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol ar y farchnad oedd £12,804,432, sef twf o £913,198. Caiff y gwerthoedd hyn eu datgelu yn Nodyn 7 sy'n cyd-fynd â'r cyfrifon hyn.



William Graham

Aelod Cynulliad

Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr (ar ran yr Ymddiriedolwyr)



Gareth Jones

Ymddiriedolwr

Dyddiad: 22 Mehefin 2015

Adroddiad buddsoddi – ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015



Mae'r Ymddiriedolwyr wedi paratoi Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, sy'n nodi eu polisiau buddsoddi a'u strategaeth ar gyfer eu rhoi ar waith, ac mae copi ar gael ar gais.

Mae'r cyfrifoldeb o reoli buddsoddiadau o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i Baillie Gifford Life Limited, sy'n gweithredu'n unol â'r canllawiau a'r cyfyngiadau a nodir yn y Cytundeb Polisi Bywyd a'r cyfarwyddiadau a roddir gan yr Ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd.

Mae'r buddsoddiadau'n cynnwys unedau mewn cronfeydd cyfun a reolir gan Baillie Gifford, ac ystyrir bod y daliadau'n hawdd eu gwerthu.

Prisio'r portffolio

	31 Mawrth 2015 GBP	31 Mawrth 2014 GBP
Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford	12,832,902	11,603,052
Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford	12,804,432	11,099,331
Cronfa Bensiwn Fynegrifol 'Gilt Plus' Baillie Gifford	2,942,770	2,328,226
CYFANSWM	28,580,104	25,030,609

Dyrannu'r asedau

Dyma sut roedd yr asedau wedi'u dyrannu ar 31 Mawrth:

	31 Mawrth 2015 %	31 Mawrth 2014 %
Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford	44.9	46.4
Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford	44.8	44.3
Cronfa Bensiwn Fynegrifol 'Gilt Plus' Baillie Gifford	10.3	9.3
CYFANSWM	100.0	100.0

Amcanion perfformiad

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi pennu amcan perfformiad ar gyfer y rheolwyr buddsoddi sy'n ystyried proffil atebolrwydd y gronfa a'r lefel o risg sy'n briodol ym marn yr Ymddiriedolwyr.

Perfformiad hyd at fis Mawrth 2015 (%)

Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford	Cronfa (Net)	Meincnod
Perfformio 1.0-1.5% y flwyddyn (gros) yn well na Chronfa Gronedig Ganolrif CAPS dros gyfnodau treigl o 3 blynedd.		
Pum mlynedd (y flwyddyn)	9.7	7.8
Tair blynedd (y flwyddyn)	11.6	10.4
Blwyddyn	10.6	10.7

Cronfa Bensiwn Fyngrifol 'Gilt Plus' Baillie Gifford	Cronfa (Net)	Meincnod
Perfformio 1.5% y flwyddyn (gros) yn well na Mynegai Gilt Mynegrifol 5 mlynedd Actiwarau'r FT dros gyfnodau treigl o dair blynedd. Cyn 10 Rhagfyr 2010, y nod oedd perfformio 0.75% y flwyddyn (gros) yn well na Mynegai Gilt Mynegrifol 5 mlynedd Actiwarau'r FT dros gyfnodau treigl o dair blynedd		
Pum mlynedd (y flwyddyn)	10.4	10.8
Tair blynedd (y flwyddyn)	8.5	8.9
Blwyddyn	19.7	21.1

Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford	Cronfa (Net)	Meincnod +3.5%
Perfformio 3.5% y flwyddyn (llai ffioedd) yn well na chyfradd sylfaenol y DU dros gyfnodau treigl o bum mlynedd gyda chyfnewidioldeb blyneddol o lai na 10%		
Pum mlynedd (y flwyddyn)	6.5	4.0
Tair blynedd (y flwyddyn)	6.5	4.0
Un Flwyddyn	7.9	4.0

Ffynhonnell: Statpro

Crynodeb o'r ystadegau risg

Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford		
Cyfnewidioldeb		4.4

Cyfnewidioldeb blyneddol, wedi'i gyfrifo dros 5 mlynedd tan ddiwedd mis Mawrth 2015

Ffynhonnell: Baillie Gifford

Cefndir yr economi a'r farchnad – 12 mis tan 31 Mawrth 2015

Asedau amrywiol

Yn ystod y cyfnod hwn, sicrhodd y rhan fwyaf o farchnadoedd buddsoddi mawr elw da, a hynny oherwydd bod buddsoddwyr yn fwy hyderus, bod arwyddion yn dangos bod y sefyllfa economaidd yn gwella, a bod polisïau ariannol llac ar waith mewn nifer o wledydd datblygedig. Er y cafwyd nifer o ddigwyddiadau allweddol a greodd ansicrwydd o ran diogelwch byd-eang, prin fu eu heffaith ar farchnadoedd buddsoddi. Ar y llaw arall, arweiniodd y gostyngiad sydyn ym mhris olew a gwendid arian cyfred Rwsia at bryder ymhlith buddsoddwyr ac ansefydlogrwydd cynyddol yn y farchnad. Fodd bynnag, roedd y gostyngiad ym mhris olew o fudd i rai gwledydd, yn enwedig mewnforwyr olew net, a defnyddwyr yn fwy cyffredinol.

Yn yr Unol Daleithiau, er gwaethaf ambell anhawster, roedd yr hyder yn yr economi yn parhau i gynyddu. Oherwydd yr optimistaeth gyffredinol hon, aeth y Gronfa Ffederal ati i leihau ac yna i roi'r gorau i'w rhaglen prynu bondiau. O ganlyniad i'r hyder hwn yn y farchnad, ynghyd â ffactorau eraill fel cyfraddau llog isel a'r ffaith bod cyfranddeiliaid wedi cael symiau sylweddol o arian yn ôl drwy gyfrwng rhaglenni prynu'n ôl a thaliadau difidend, cododd marchnad stoc yr Unol Daleithiau yn uwch nag erioed o'r blaen.

Mae data economaidd y DU hefyd yn awgrymu bod y sefyllfa'n gwella, ac mae'r cynnyrch domestig gros diwygiedig ar gyfer 2014 yn uwch nag a ragwelwyd. Unwaith eto, oherwydd hynny, cododd y farchnad stoc yn uwch nag erioed erbyn diwedd y cyfnod.

Er bod yr adferiad economaidd yn dal yn fregus yn Ardal yr Ewro, gwelwyd marchnadoedd Ewrop yn cryfhau wrth i Fanc Canolog Ewrop gyhoeddi cynlluniau i ehangu ei raglen lleddfu meintiol. Arweiniodd buddugoliaeth plaid adain chwith Syriza yn etholiad gwlad Groeg at rywfaint o bryder ynghylch sefydlogrwydd ariannol Ewrop, ond daeth y llywodraeth newydd i gytundeb â'i phartneriaid yn Ardal yr Ewro i ymestyn y terfyn amser ar gyfer ad-dalu'r cymorthdaliadau, a bu hyn yn gyfrwng i sefydlogi'r sefyllfa rywfaint yn ardal yr arian sengl.

Yn Japan, cymerodd y llywodraeth gamau i weithredu 'trydedd saeth' Prif Weinidog Abe i geisio sicrhau diwygiadau strwythurol a chreu sylfaen i roi hwb i'r adferiad economaidd bregus. Fodd bynnag, roedd y broses o newid yn arafach nag yr oedd nifer yn ei ddisgwyl, a galwodd Abe etholiad cyflym i geisio sicrhau mandad cryfach i roi ei bolisiau ar waith. Enillodd fwyafrif sylweddol a roddodd iddo'r awdurdod i ailafael yn ei gynllun economaidd a hynny gan ddilyn ei amserlen ef ei hun.

Yn erbyn y cefndir hwn, gwelwyd cynnydd o 12% ym marchnad ecwiti'r Unol Daleithiau, sef elw o 25% i fuddsoddwyr sterling, a chynnydd o 7% yn y DU. Cafwyd twf o 19% yn Ewrop yn nhermau arian lleol – 7% mewn sterling – bu twf o 13% mewn arian lleol, ac 16% ar ôl trosi, yn y Marchnadoedd Newydd a bu cynnydd o 13% yn Asia Datblygedig (gan gynnwys Japan), neu 16% i fuddsoddwyr a oedd wedi'u lleoli yn y DU.

Oherwydd ansefydlogrwydd yn y farchnad, cafwyd symudiadau cyfnodol mewn meysydd yr ystyrir bod llai o risg yn perthyn iddynt, a pherfformiodd bondiau'n dda. Cafwyd cynnydd o 14% ym mondau llywodraeth y DU, a chynnydd o 8% mewn bondiau llywodraethau tramor yn nhermau arian lleol. Roedd galw hefyd am fondiau corfforaethol y DU ymhlith buddsoddwyr a oedd yn ceisio cynyddu eu helw mewn amgylchedd lle'r oedd cyfraddau llog yn isel, a chafwyd twf o 13%.

Er bod hyder buddsoddwyr wedi bod yn gwella, mae'r problemau gwleidyddol ac economaidd yn parhau. Fodd bynnag, yn gyffredinol, rydym yn optimistaidd ynglŷn â'r economi fyd-eang.

Twf Amrywiol

Ymhlith y ffactorau a gyfrannodd fwyaf at berfformiad da'r Gronfa Twf Amrywiol roedd asedau risg economaidd fel ecwitiau rhestredig, bondiau marchnadoedd newydd ac eiddo. Roedd dyraniadau i ddosbarthiadau o asedau fel elw absoliwt, cyllid strwythuredig a seilwaith hefyd o gymorth. Ni welwyd gostyngiad mewn elw oherwydd unrhyw un dosbarth o asedau dros y 12 mis dan sylw.

Roedd portffolio'r Gronfa yn parhau'n amrywiol a dyrannwyd cryn dipyn i asedau mwy amddiffynnol fel bondiau graddfa buddsoddi, arian wedi'i strwythuro ac arian parod. Credwn y bydd hyn yn sicrhau mwy o elw mewn amrywiaeth o amgylcheddau economaidd gwahanol ac yn helpu i liniaru unrhyw ostyngiadau yn y farchnad.

Cryfhawyd yr hyn a oedd eisoes yn duedd wylidwrus yn y portffolio, sy'n parhau i gynnwys nifer o wahanol ddosbarthiadau o asedau, gan symudiadau mewn dyraniadau yn ystod y rhan olaf o'r cyfnod. Mewn ecwitiau rydym wedi buddsoddi fwyaf ond dim ond un rhan o bump o'r portffolio yw'r buddsoddiadau hyn, sef dim ond hanner yr hyn y caniateir inni fod yn berchen arnynt, yn ôl y cyfyngiadau ar ddyrannu asedau, pe baem yn buddsoddi'n egniol mewn ecwitiau. Y dyraniad mwyaf wedyn yw marchnadoedd credyd sy'n cynhyrchu enillion uchel a chyllid strwythuredig, ond credwn mai cyfyngedig yw'r risg inni golli arian drwy'r dyraniadau hyn oherwydd cynnydd mewn cyfraddau llog. Yn wir, yn ddiweddar, rydym wedi buddsoddi drwy werthu blaendrafodion 10 mlynedd Trysorlys yr Unol Daleithiau i'w wrthbwysu risg llog yn y portffolio. Mae gennym offerynnau credyd eraill y byddwn yn eu cadw am gyfnod byr (ac, oherwydd hynny, mae llai o risg i gynydd mewn cyfraddau llog effeithio arnynt) neu offerynnau cyfradd arlawf y mae eu taliadau cwpon yn codi'n unol â chyfraddau llog y farchnad.

Yr unig ddyraniad arall sy'n cyfateb i dros 10% o'r portffolio yw i fondiau llywodraethau a chanddynt economi sy'n datblygu. Mae'r rhain yn cynhyrchu llawer mwy o elw na bondiau llywodraethau a chanddynt economi datblygedig – tua 6% ar gyfartaledd – felly teimlwn fod dadl ariannol gref o blaid eu prynu.

Mae banciau canolog yn dal i benderfynu ar y ffordd orau o drin polisi ariannol heb siglo'r adferiad bregus a heb greu datchwyddiant. Ymddengys bod prisiau'r dosbarthiadau o asedau i'w gweld yn adlewyrchu'r ymyriad parhaus hwn, gan beri inni fod yn fwy gwyliadwrus. Er bod rhai buddsoddwyr yn rhy optimistaidd, o bosibl, ymddengys bod sylwedd i'r adferiad sy'n mynd rhagddo ac, at ei gilydd, rydym yn disgwyl y bydd yn y sefyllfa'n parhau i wella drwy'r byd i gyd, er mai araf fydd y broses. Fodd bynnag, o gofio'r cynnydd sylweddol mewn prisiau mewn llawer o ddosbarthiadau o asedau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r enillion arfaethedig yn debygol o fod yn is yn y dyfodol.

Bond y Llywodraeth

Yn ystod y 12 mis diwethaf, sicrhawyd enillion cryf yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau o asedau. Roedd arwyddion fod economi'r Unol Daleithiau a'r DU yn gwella, er bod ansicrwydd yn parhau yn Ardal yr Ewro, lle'r oedd digwyddiadau yng ngwlad Groeg yn parhau i effeithio'n sylweddol ar y sefyllfa, ac yn y marchnadoedd newydd. Aros yn isel wnaeth cyfraddau llog ac, yn dilyn gostyngiad sydyn mewn pris olew, gwelwyd chwyddiant yn gostwng ymhellach ac, yn ystod y cyfnod, gostyngodd enillion bond y llywodraeth i'r lefelau isaf erioed.

Ym marchnadoedd Ewrop, gellid priodoli'r modd y caiff enillion eu gwasgaru rhwng bondiau Ewropeaidd ymylol a byndiau'r Almaen i benderfyniad awdurdodau'r UE i liniaru ofnau y byddai'r system bancio'n chwalu'n ddireolaeth, yn hytrach nag i unrhyw ddisgwyliadau y byddai'r sefyllfa economaidd yn gwella. Tua diwedd y cyfnod, dechreuodd Banc Canolog Ewrop ar raglen lleddfu meintiol. Yn y cyfamser, roedd economi'r DU yn cryfhau, er yn arafach nag economi'r Unol Daleithiau.

Gwelwyd bod y gostyngiad mewn pris olew a phenderfyniad banciau canolog i gadw cyfraddau llog yn isel iawn wedi cryfhau giliau, a berfformiodd yn arbennig o dda drwy gydol y cyfnod; cofnodwyd cynnydd o 14% dros y 12 mis i gyd.

Mae cyfraddau llog yn annhebygol o godi'n sylweddol yn y tymor agos a dylai hyn hybu bondiau llywodraethau yn y farchnad ddatblygedig, er bod prisiau wedi cyrraedd lefelau uwch nag y buont ers rhai degawdau. Gan fod ansicrwydd ynghylch twf a gwleidyddiaeth mewn rhai economïau newydd, mae'n debyg y bydd gwasgariad cynyddol yn ystod y misoedd nesaf ac mae hyn yn creu cyfleoedd o ran rheoli buddsoddiadau.

Y daliadau mwyaf

Y deg daliad mwyaf

Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford	% o'r portffolio
Baillie Gifford Emerging Mkts Gwth Fund C Accum	6.0
Baillie Gifford Emerging Mkts Bond Fd C Gross Acc	2.8
BG Worldwide Global Credit Fund C GBP Acc	2.5
BG Worldwide Active Cash Plus Fund C GBP Acc	2.4
Baillie Gifford Global Bond Gross C Acc	1.8
St. James's Place	1.7
Baillie Gifford British Smaller Cos Fund C Accum	1.6
Prudential	1.5
Baillie Gifford Japanese Smaller Cos Fund C Accum	1.3
Ashtead	1.2

Cronfa Bensiwn Gilt Plus Baillie Gifford Active IL	% o'r portffolio
UK Treasury 0.375% IL 22/03/2062	10.1
UK Treasury 0.5% IL 22/03/2050	9.3
UK Treasury 0.625% IL 22/11/2042	9.1
UK Treasury 4.125% IL 22/07/2030	8.8
UK Treasury 1.125% IL 22/11/2037	8.0
UK Treasury 0.75% IL 22/11/2047	7.7
UK Treasury 1.25% IL 22/11/2032	7.7
UK Treasury 2% IL 26/01/2035	7.1
UK Treasury 1.25% IL 2055	6.3
UK Treasury 1.25% IL 22/11/2027	6.0

Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford	% o'r portffolio
Baillie Gifford Emerging Mkts Bond Fd C Gross Acc	7.6
BG Worldwide Global Credit C USD Acc	6.4
Baillie Gifford Global Alpha Growth Fund C Acc	5.9
Baillie Gifford Global Income Fund C Accum	5.0
Baillie Gifford High Yield Bond Fund C Gross Acc	4.6
Galene Fund	3.8
Metreta Fund	3.0
BG Worldwide Japanese Fund C GBP Acc	2.9
Allianz Merger Arbitrage Strategy	2.9
Julius Baer Multibond ABS Fund	2.7

Polisi amgylcheddol a chymdeithasol a pholisi llywodraethu Baillie Gifford

Mae Baillie Gifford yn cydnabod bod hawliau a chyfrifoldebau arbennig ynghlwm wrth fod yn berchen ar gyfranddaliadau cwmni ar ran cleientiaid. Ar yr un pryd, mae materion amgylcheddol a chymdeithasol a materion llywodraethu, a'r modd y caiff y materion hyn eu rheoli, yn rhan annatod o gynaliadwyedd busnes. Oherwydd hyn, mae Baillie Gifford yn ystyried materion o'r fath wrth ddadansoddi ac adolygu cwmni, ac mae Tîm Llywodraethu Corfforaethol penodol hefyd yn ysgwyddo'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth fod yn berchen ar gyfranddaliadau ar ran ein cleientiaid.

Fel rheolwyr gweithredol, rhan allweddol o'n strategaeth fuddsoddi yw asesu safon rheolaeth cwmnïau, ac yn benodol agweddau'r rheolwyr at gyfranddalwyr. Wrth gyfuno gwybodaeth busnes anariannol â gwybodaeth ariannol, ceir dealltwriaeth werthfawr o safon y rheoli'n gyffredinol. O gofio bod materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant arwyddocaol yn parhau dros y tymor canolig a'r tymor hir a bod ein cleientiaid yn buddsoddi yn y tymor hir, mae'n bwysig ein bod yn ystyried agweddau cwmnïau tuag at y materion hyn fesul achos.

Rydym ni'n ymdrin â'r materion cymdeithasol ac amgylcheddol sydd ynghlwm wrth fod yn berchen ar gyfranddaliadau drwy ymgysylltu a thrafod â chwmnïau'n hytrach na'u hallgáu. Drwy ddefnyddio ymchwil mewnol ac allanol, rydym yn nodi materion allweddol yn ymwneud â chyfranddaliadau ein cleientiaid ac yn eu trafod â'r cwmnïau dan sylw. Yn y modd hwn, rydym yn annog cwmnïau i fonitro ac i ymdrin ag unrhyw risgiau a chyfleoedd amgylcheddol a chymdeithasol o bwys sy'n wynebu eu busnesau. Rydym yn credu y gall y broses hon gyfrannu at werth buddsoddiadau ein cleientiaid yn y tymor hir.

Datganiad yr Actiwari – yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2015

Caiff Cynllun Pensiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei eithrio o'r gofyniad a nodir yn Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Datgelu Gwybodaeth) 1996 i baratoi adroddiad a chyfrifon wedi'u harchwilio cyn pen saith mis ar ôl diwedd y flwyddyn gyfrifyddu. Fodd bynnag, bwriad yr Ymddiriedolwyr yw cydymffurfio ag ysbryd y ddeddfwriaeth ac, felly, mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi yn yr un modd â phe bai'r ddeddfwriaeth yn gymwys.

Asesiad Actiwaraid

Cynhaliwyd asesiad actiwaraid ffurfiol o Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynllun) gyda dyddiad gweithredol o 1 Ebrill 2014, a'r prif amcan oedd gwneud argymhellid i Ymddiriedolwyr y Cynllun ynghylch pennu cyfradd briodol ar gyfer cyfraniad y cyflogwr ar ôl y dyddiad hwnnw. Er bod cyfraniadau'r aelodau wedi'i bennu yn y Rheolau, caiff cyfraniad y cyflogwr ei bennu fel canran y cyflog sydd ei hangen i dalu balans y gost gyda'r bwriad o sicrhau y telir am fuddion y Cynllun yn ystod gwasanaeth disgwylidig yr Aelod yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Dull

Wrth baratoi prisiad actiwaraid 2014, defnyddiwyd y Dull Rhagamcanu Unedau i brisio'r rhwymedigaethau y disgwyliwyd iddynt gronni o dan y Cynllun yn ystod y flwyddyn yn dilyn y dyddiad prisio. Mynegir Cyfradd Cyfraniadau Safonol y Dull Rhagamcanu Unedau fel gwerth y buddion a gronnir yn ystod y cyfnod rheoli wedi ei rannu â gwerth presennol enillion aelodau yn ystod y cyfnod hwn. Disgwylir i'r dull prisio hwn ddarparu Cyfradd Cyfraniad Safonol lled sefydlog ar gyfer prisiadau actiwaraid olynol cyhyd ag y bo dosbarthiad y rhai sy'n aelodau o'r Cynllun yn aros yn lled gyson o ran oedran/rhyw/cyflog.

Yna, cymharwyd gwerth y rhwymedigaethau a gronnwyd hyd at y dyddiad prisio â gwerth asedau'r Cynllun ar yr un dyddiad. Gellid fod wedi adlewyrchu'r gwarged o £3.58 miliwn fel addasiad i'r Gyfradd Cyfraniad Safonol. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau â'r Ymddiriedolwyr, mae'r gyfradd a argymhellir ar gyfer cyfraniad y cyflogwyr yr un fath â'r gyfradd daladwy yn dilyn prisiad 2011. Mae hyn yn is na'r Gyfradd Cyfraniad Safonol llawn llai cyfraniadau'r aelod, ond yn uwch nag y byddai wedi bod pe bai'r Gyfradd Cyfraniad Safonol wedi'i haddasu i gael gwared ar y gwarged yn y cynllun dros 15 mlynedd.

Tybiaethau

Er mwyn cyfrifo cost buddion y Cynllun, mae'n rhaid gwneud rhai tybiaethau actiwaraid o ran incwm disgwylidig y Cynllun yn y dyfodol a'r budd-daliadau a delir ganddo. Mae'r Gyfradd Cyfraniad Safonol yn golygu y byddai'n ddigonol i gyllido'r buddion a gronnir ar ôl y dyddiad prisio cyhyd ag y bo gwir brofiadau'r Cynllun yn cyd-fynd â'r tybiaethau a wnaed. Efallai y bydd angen addasu'r Gyfradd Cyfraniad Safonol yn y dyfodol i ystyried unrhyw wahaniaeth rhwng profiadau'r Cynllun a'r tybiaethau a wnaed.

Dangosir y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd ym mhrisiad actiwaraid 2014 i gyfrifo cost buddion y Cynllun yn y tabl isod.

Adenillion buddsoddiad, net o dreuliau, yn fwy na chwyddiant cyflog	1 ½ % y flwyddyn
Adenillion buddsoddiad, net o dreuliau, yn fwy na chwyddiant pris (yn seiliedig ar y Mynegai Prisiau Defnyddwyr)	3½ % y flwyddyn

Hirhoedledd pensiynwyr – yn seiliedig ar dablau safonol a gyhoeddir gan yr Ymchwiliad Parhaus i Farwolaethau (tablau SAPS) gyda'r addasiadau a fabwysiadwyd ym mhrisiad Cynllun Pensiwn GIG Cymru a Lloegr fel ar 31 Mawrth 2012, a gwelliannau yn y dyfodol yn unol â'r prif amcanestyniadau poblogaeth, a seiliwyd ar ffigurau 2012, ac a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae rhagor o fanylion am y dulliau a'r tybiaethau a ddefnyddir yn yr adroddiad ar yr asesiad actiwaraid fel ag yr oedd ar 1 Ebrill 2014, dyddiedig 26 Mawrth 2015.

Cyfradd cyfraniadau

Mae Aelodau yn talu cyfraniadau cyfwerth â 10% o'u cyflog pensiynadwy os ydynt yn cronni un rhan o ddeugain o'u tâl pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth, neu 6% o'u tâl pensiynadwy os ydynt yn cronni un rhan o hanner cant. Gan ddefnyddio'r dull a'r tybiaethau uchod, yr asesiad ar gyfer cyfraniad y cyflogwr oedd 23.8% o gyflog pensiynadwy o 1 Ebrill 2015 ymlaen, sef yr un gyfradd ag a dalwyd rhwng 1 Ebrill 2009 ac 1 Ebrill 2015. Mae'r gyfradd hon yn cynnwys darpariaeth lawn o ran budd-dal marwolaeth, gan gynnwys cynnydd yn y buddion hyn ers i'r cynllun ddechrau, a hefyd lwfans ar gyfer costau gweinyddu.

Mae Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyhoeddi cynigion i greu strwythur buddion newydd a fyddai'n dod i rym ym mis Mai 2016. Argymhellir y bydd cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr yn cael ei ailasesu wedi i reolau diwygiedig y cynllun gael eu rhoi ar waith. Gan hynny, mae'n bosibl y caiff cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr, sef 23.8%, ei newid o fis Mai 2016 ymlaen.

Diogelwch yr hawliau arfaethedig

Yn fy marn i, mae adnoddau'r cynllun yn debygol, o dan amgylchiadau arferol, o gwrdd â rhwymedigaethau llawn y cynllun wrth iddynt ddod yn ddyledus. Wrth fynegi'r farn hon, rwyf wedi cymryd yn ganiataol y bydd cyfraniadau'r cyflogwr a'r aelodau'n cael eu talu i'r Cynllun fel y disgrifir yn y paragraff "Cyfradd Cyfraniadau;" yn amodol ar adolygiad yn ystod asesiadau actiwaraid.

Yr asesiad actiwaraid nesaf

Dyddiad gweithredol y prisiad actiwaraid nesaf yw 1 Ebrill 2017. Prif ddiben y prisiad hwnnw fydd asesu a yw'r gyfradd a argymhellwyd ar gyfer cyfraniadau'r cyflogwr yn ddigonol, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol ers y prisiad blaenorol.

Dyddiad: 11 Mai 2015

	
I A Boonin Cymrawd Athrofa a Chyfadrn yr Actiwariaid	Adran Actiwari'r Llywodraeth Finlaison House, 15-17 Furnival Street London EC4A 1AB

Datganiad am gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y datganiadau ariannol. Nid yw'n ofynnol, yn ôl statud, i'r Ymddiriedolwyr gydymffurfio â rheoliadau'r cynllun pensiwn, ond maent wedi cytuno i wneud hynny pan fo hynny'n bosibl oherwydd bod hynny'n arfer da. Yn ôl y rheoliadau, mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr sicrhau bod datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer bob blwyddyn o'r Cynllun ar gael i aelodau'r cynllun, buddiolwyr a rhai partïon eraill a bod yn rhaid i'r datganiadau hyn:

- roi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y cynllun yn ystod blwyddyn y cynllun ac o faint a sefyllfa'r asedau a'r rhwymedigaethau ar ddiwedd y flwyddyn honno, ar wahân i'r cyfrifoldebau i dalu pensiynau a buddion ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun, a
- chynnwys y wybodaeth benodol yn yr Atodlen i'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996, gan gynnwys datganiad yn nodi a yw'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir, 'Adroddiadau Ariannol ar Gynlluniau Pensiwn'.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi goruchwyllo'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol ac maent wedi cytuno ar bolisiau cyfrifyddu addas, sydd i'w gweithredu'n gyson gan wneud unrhyw amcangyfrifon a dod i unrhyw farn ar sail ddarbodus a rhesymol.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau y cedwir at reolau'r Cynllun ac argymhellion yr Actwari o ran y cyfraniadau sy'n daladwy i'r Cynllun, cyfraniadau gan, neu ar ran, y cyflogwr ac aelodau gweithredol y cynllun a'r dyddiadau y mae'r cyfraniadau hyn i'w talu. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am gadw cofnod o gyfraniadau a dderbyniwyd mewn perthynas ag unrhyw aelod gweithredol o'r cynllun ac am sicrhau bod cyfraniadau'n cael eu gwneud i'r Cynllun yn unol ag argymhellion Actiwari'r Cynllun.

Hefyd mae gan yr Ymddiriedolwyr gyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu digonol yn cael eu cadw ac am gymryd unrhyw gamau rhesymol i ddiogelu asedau'r cynllun ac i atal a darganfod unrhyw dwyll neu anghysonderau eraill, gan gynnwys cynnal dulliau rheoli mewnol priodol.

Crynodeb o'r cyfraniadau a dalwyd yn ystod y flwyddyn

Dyma'r cyfraniadau a dalwyd yn ystod y flwyddyn i'r cynllun gan y Cyflogwr yn unol ag argymhellion yr Actiwari:

	2014-15	2013-14
	£	£
Cyfraniadau arferol y cyflogwr	979,849	981,125
Cyfraniadau arferol y Gweithiwr Cyflogedig	403,418	404,331
Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol y gweithiwr i brynu blynyddoedd ychwanegol	16,107	10,754
Cyfanswm y cyfraniadau	1,399,374	1,396,210

Llofnod




William Graham

Aelod Cynulliad

Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr (ar ran yr Ymddiriedolwyr)

Llofnod



Gareth Jones

Ymddiriedolwr

Dyddiad: 22 Mehefin 2015

Cysoni'r cyfraniadau uchod, a'r cyfraniadau a nodwyd yn y datganiadau ariannol::

	2014-15	2013-14
	£	£
Cyfraniadau a dalwyd	1,399,374	1,396,210
Llai dyledwr agoriadol	(117,190)	(115,025)
Ynghyd â'r dyledwr cloi	<u>115,430</u>	<u>117,190</u>
Cyfraniadau a nodwyd yn y datganiadau ariannol	<u>1,397,614</u>	<u>1,398,375</u>

Datganiad yr Archwilydd Annibynnol

Datganiad yr Archwilydd Annibynnol am gyfraniadau i ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rwyf wedi archwilio'r crynodeb o'r cyfraniadau i Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015, a nodir ar dudalen 18.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r archwilwyr

Fel y disgrifir yn Datganiad Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr ar dudalen 17, ymddiriedolwyr y cynllun sy'n gyfrifol am sicrhau bod rhestr o gyfraniadau cael ei pharatoi, ei chynnal a'i hadolygu o bryd i'w gilydd. Rhaid i'r rhestr hon nodi'r cyfraddau a'r dyddiadau dyledus yng nghyswllt rhai cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun gan neu ar ran y cyflogwr ac aelodau gweithredol y cynllun. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am gadw cofnod o gyfraniadau a dderbyniwyd mewn perthynas ag unrhyw aelod gweithredol o'r cynllun ac am fonitro a yw'r cyflogwr yn cyfrannu i'r cynllun yn unol â'r rhestr o gyfraniadau.

Fy nghyfrifoldeb i yw darparu datganiad am gyfraniadau a dalwyd o dan y rhestr o gyfraniadau a rhoi fy marn i chi.

Cwmpas y gwaith ar y datganiad am gyfraniadau

Mae fy archwiliad yn ymwneud â chael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol fod y cyfraniadau a nodir yn y crynodeb o gyfraniadau ar dudalen 18, wedi'u talu, ym mhob ffordd berthnasol, yn unol â'r rhestr o gyfraniadau o leiaf. Mae hyn yn cynnwys archwilio, ar sail profion, y dystiolaeth a oedd yn gysylltiedig â swm y cyfraniadau a oedd yn daladwy i'r cynllun a phryd y gwnaed y taliadau hynny, o dan y rhestr o gyfraniadau.

Datganiad am gyfraniadau a oedd yn daladwy o dan y rhestr o gyfraniadau

Yn fy marn i mae cyfraniadau i'r cynllun yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015, fel y'u nodwyd yn y crynodeb o gyfraniadau, ac a oedd yn daladwy o dan y rhestr o gyfraniadau, wedi'u talu, ym mhob ffordd berthnasol, yn unol â'r rhestr o gyfraniadau a ardystiwyd gan actiwari'r cynllun ar 11 Mai 2015.

Huw Vaughan Thomas,
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Dyddiad: 15 Gorffennaf 2015

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cynllun Pensiwn yr Aelodau sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru; nid yw'r gwaith y mae Archwilwyr yn ymgymryd ag ef yn ystyried y materion hyn ac, oherwydd hyn, nid yw Archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.

Datganiad llywodraethu

Cwmpas y cyfrifoldeb

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb fel Ymddiriedolwyr dros gynnal system gadarn o lywodraethu i ddiogelu cronfeydd ac asedau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â Chynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gynllun statudol ac mae'n gynllun pensiwn cofrestredig o dan Ddeddf Cyllid 2004. Cyfeirnod Treth y Cynllun Pensiwn (PSTR) yw 00462258RW

Mae Tîm Pensiynau Gwasanaethau Ariannol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu gwasanaethau ysgrifenyddol a gweinyddol i'r Ymddiriedolwyr ac mae'r trefniant hwn yn dod o dan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Bwrdd), Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn) a'r Ymddiriedolwyr. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd, y Comisiwn a'r Ymddiriedolwyr o ran rheoli a gweinyddu Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Y fframwaith llywodraethu

Mae'r Ymddiriedolwyr, ac eithrio'r Ymddiriedolwr Bensiynwr, yn Aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a chânt eu penodi drwy Benderfyniad y Cynulliad yn unol â rheolau Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Atodlen 1, Darpariaethau Cyffredinol parthed Ymddiriedolwyr, yn rheolau'r Cynllun yn nodi y bydd y Cynulliad, drwy benderfyniad, yn penodi dim mwy na chwe aelod i fod yn Ymddiriedolwyr y Cynllun hwn, a bydd un ohonynt yn Ymddiriedolwr Bensiynwr. Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr yw tri. Caiff cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr eu diffinio'n glir yn y Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr ar dudalen 17 yn yr Adroddiad Blynnyddol.

Cafodd yr Aelodau a ganlyn eu penodi'n Ymddiriedolwyr drwy benderfyniad gan y Cynulliad:

Rôl	Enw	Dyddiad Penodi
Cadeirydd	William Graham AC	03/06/2009
Ymddiriedolwr	David Melding AC	12/10/2011
Ymddiriedolwr	Peter Black AC	12/10/2011
Ymddiriedolwr	Jocelyn Davies AC	12/10/2011
Ymddiriedolwr	Mike Hedges AC	12/10/2011
Ymddiriedolwr-bensiynwr	Gareth Jones	09/06/2010

Etholwyd Mr Graham yn Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr yn ystod cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr ym mis Hydref 2009.

Rhoddodd Mr Jones y gorau i'w swydd fel Aelod Cynulliad ym mis Mawrth 2011, ond fe'i penodwyd yn Ymddiriedolwr Bensiynwr drwy bleidlais o aelodau sy'n bensiynwyr ym mis Hydref 2011. Ef yw'r unig Ymddiriedolwr sy'n gwasanaethu am gyfnod penodol o 5 mlynedd tan 4 Hydref 2016.

Enw	Canran y cyfarfodydd y bu'r ymddiriedolwyr yn bresennol ynddynt
-----	---

William Graham AC	100%
David Melding AC	80%
Peter Black AC	40%
Jocelyn Davies AC	60%
Mike Hedges AC	100%
Gareth Jones	80%

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd tri phrif gyfarfod o'r ymddiriedolwyr, a hynny ym mis Mehefin, Hydref a Mawrth, a dau gyfarfod arbennig ym mis Gorffennaf a mis Tachwedd. Mae'r rhestr uchod yn dangos canran o'r holl gyfarfodydd y bu'r Ymddiriedolwyr yn bresennol ynddynt ond, dylid nodi bod y cyfarfodydd arbennig wedi'u trefnu ar fyr rybudd.

Ymddiheurodd Mr Melding a Mr Black am fethu â bod yn bresennol ym mhrif gyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr gan eu bod yn ymgymryd â busnes y Cynulliad. Ymddiheurodd Mr Jones am fethu â bod yn bresennol yn y cyfarfod arbennig ym mis Tachwedd ac ymddiheurodd Ms Davies a Mr Black am fethu bod yn y ddau gyfarfod arbennig gan eu bod yn ymgymryd â busnes y Cynulliad.

Yn ystod y flwyddyn trefnodd yr Ymddiriedolwyr yr adroddiadau manwl a ganlyn:

- Adroddiad yr Archwilydd ar y Datganiadau Ariannol
- Adolygiad o berfformiad buddsoddiadau'r Cynulliad a'r rhagolygon
- Prisiad actiwraidd fel ar 1 Ebrill 2014
- Adolygiad o reolau cynllun pensiwn drafft y Pumed Cynulliad
- Adolygu a chymhwyso'r Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â chynllun pensiwn newydd y Pumed Cynulliad
- Cytunwyd ar y Weithred Indemniad ym mis Mehefin 2014 ac mae'n nodi ymrwymiad y Comisiwn i ddiogelu, ac i barhau i ddiogelu'r Ymddiriedolwyr yn llawn ac yn effeithiol rhag unrhyw golledion a all godi oherwydd perfformiad esgeulus neu ddiffyg perfformiad ar ran y Comisiwn yn y modd y mae'n darparu gwasanaethau gweinyddol i'r Cynllun, neu'n ymwneud â'r Cynllun.

Paratowyd a chyflwynwyd yr adroddiadau gan gynghorwyr proffesiynol y Cynllun. Drwy'r wybodaeth hon, ynghyd â phapurau briffio ychwanegol a baratowyd gan yr Ysgrifenyddiaeth, cafwyd data o ansawdd da a ganiataodd i'r Ymddiriedolwyr arfer eu swyddogaethau'n effeithiol yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

Diben y system rheolaeth fewnol

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg hyd at lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â rhoi polisiau ar waith a methu â chyflawni nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd y gall ei ddarparu.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i geisio nodi'r prif risgiau sy'n bygwth nodau ac amcanion Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i werthuso natur a maint y risgiau hynny a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Mae'r system yn seiliedig ar fframwaith rheoli gwybodaeth yn rheolaidd, rheoli ariannol, gweithdrefnau gweinyddol, gan gynnwys gwahanu dyletswyddau, a system o ddirprwyo a sicrhau atebolrwydd.

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith yng Nghynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon.

Problemau rheolaeth fewnol arwyddocaol

Ni nodwyd unrhyw broblemau arwyddocaol yn ymwneud â rheolaeth fewnol yn ystod y flwyddyn.

Y gallu i ymdopi â risg

Caiff y cyfrifoldeb dros weinyddu a chyfrifyddu'r Cynllun o ddydd i ddydd ei ysgwyddo ar ran yr Ymddiriedolwyr gan staff yr Ysgrifenyddiaeth yng Ngwasanaethau Ariannol Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a nhw hefyd sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli.

Digwyddiadau'n ymwneud â data personol

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â data personol na cholli data yn ystod y flwyddyn.

Rheoli risg

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, adolygwyd y gofrestr risg ar gyfer y Cynllun, a chafodd ei diweddarau a'i chytuno gyda'r Ymddiriedolwyr fel rhan o'r cynllun busnes tymor canolig. Caiff y risgiau i gyd eu nodi, eu hasesu a'u rhannu'n dri chategori, sef uchel / canolig / isel, yn seiliedig ar ffactorau fel y tebygolrwydd y byddai'r risg yn digwydd, effaith y risg pe bai'n digwydd a'r rheolaethau sydd ar waith ar hyn o bryd i reoli pob risg a nodwyd. Bydd yr ymddiriedolwyr yn adolygu'r gofrestr risg bob blwyddyn o leiaf.

Defnyddiwyd y gofrestr a ddatblygwyd i nodi unrhyw fesurau ychwanegol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i reoli'r risgiau'n effeithiol. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r risgiau sydd wedi eu nodi a'r mesurau a roddwyd ar waith i leihau eu heffaith:

- Buddsoddiadau: Risg na fydd buddsoddiadau yn cynhyrchu digon o enillion gan effeithio, o ganlyniad, ar sefyllfa ariannol y cynllun. Caiff perfformiad buddsoddiadau ei adolygu gan yr Ymddiriedolwyr bob chwarter a chynhyrchodd ymgynghorydd buddsoddi'r Cynllun adroddiad blynyddol ar berfformiad buddsoddiadau;
- Cofnodion y Cynllun Pensiwn: Risg o gofnodion anghyflawn neu anghywir a all arwain at daliadau anghywir / anawdurdodedig neu at wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth anghyflawn. Mae cofnodion cywir wedi cael eu cadw o aelodau a chyn-aelodau, o drafodion i mewn ac allan o'r Cynllun ac o gyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr;
- Gweinyddu'r Cynllun: Mae'r Ymddiriedolwyr yn monitro'r camau a gymerir gan y staff gweinyddol i reoli risgiau yn eu meysydd cyfrifoldeb ym mhob un o'u cyfarfodydd;
- Aelodau: Mae gweithdrefn ar waith i ddatrys anghydfodau'n ymwneud â'r Cynllun gydag aelodau. Darperir gwybodaeth i aelodau'r cynllun yn rheolaidd drwy gylchlythyron ac mewn cyfarfodydd grŵp.

Adolygu effeithiolrwydd

Cawn gymorth i ddatblygu a chynnal y rheolaethau mewnol gan uwch reolwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Bydd Archwilydwr Mewnol Comisiwn y Cynulliad yn adolygu'r fframwaith rheoli mewnol bob blwyddyn.

Caiff ein hadolygiad o effeithiolrwydd y rheolaethau hyn ei lywio gan waith Archwilydd Cyffredinol Cymru. Caiff y sylwadau a wnaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei lythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill eu hystyried.

Rydym yn fodlon bod y rheolaethau mewnol sydd ar waith wedi bod yn effeithiol yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin ag ef.

Cymeradwywyd ar ran yr Ymddiriedolwyr ar 22 Mehefin 2015 gan:

Llofnod



William Graham

Aelod Cynulliad

Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr

(ar ran yr Ymddiriedolwyr)

Llofnod



Gareth Jones

Ymddiriedolwr

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rwyf wedi archwilio Datganiadau Ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015, sy'n cynnwys cyfrif y gronfa, y datganiad o asedau net a'r nodiadau cysylltiedig. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a nodir ar dudalen 17, ymddiriedolwyr y cynllun sy'n gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol ar gyfer Archwilydd.

Cwmpas y gwaith o archwilio'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn golygu casglu digon o dystiolaeth am y swm a'r hyn a ddatgelir yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, p'un ai oherwydd twyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n briodol; pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wneir gan yr ymddiriedolwyr; a'r modd y cyflwynir y datganiadau ariannol yn gyffredinol.

Yn ogystal â hyn, byddaf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac unrhyw wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon i nodi unrhyw anghysonderau o bwys yn y datganiadau ariannol a archwiliwyd ac i nodi unrhyw wybodaeth arwyddocaol sy'n ymddangos yn anghywir, a hynny ar sail y wybodaeth a gaf wrth gynnal yr archwiliad, neu oherwydd unrhyw anghysondeb o bwys a welaf rhwng y datganiadau a'r wybodaeth a gaf. Os byddaf yn gweld unrhyw ddatganiadau neu anghysondebau o bwys, byddaf yn ystyried goblygiadau hynny ar gyfer fy adroddiad.

Barn am y datganiadau ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y cynllun yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015, ac o swm a sefyllfa ei asedau a'i rwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw, heblaw am y rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion ar ddiwedd y flwyddyn;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- yn cynnwys y wybodaeth a bennir yn Rheoliad 3 o Reoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996, a wnaed o dan Ddeddf Pensiynau 1995.

Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Dyddiad: 15 Gorffennaf 2015

Swyddfa Archwilio Cymru

24 24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd, CF11 9LJ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cynllun Pensiwn yr Aelodau sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol. Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru; nid yw'r gwaith y mae Archwilydd yn ymgymryd ag ef yn ystyried y materion hyn ac, oherwydd hyn, nid yw Archwilydd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.

Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015

Cyfrif y Gronfa		2014-15 £	2013-14 £
Incwm y Cynllun			
Cyfraniadau i'w derbyn	4	1,397,614	1,398,375
Trosglwyddiadau i mewn		11,921	8,341
Llog i'w dderbyn		34	35
Incwm amrywiol		0	322
Gwariant y Cynllun		1,409,569	1,407,073
Buddion	5	380,461	606,740
Ffioedd proffesiynol	6	104,399	33,319
Costau gweinyddol eraill	10	2,751	3,580
		487,611	643,639
Ychwanegiadau net o drafodion ag Aelodau		921,958	763,434
Buddsoddiadau			
Newid yng ngwerth buddsoddiadau'r Gronfa Reoledig ar y farchnad	7	1,229,850	777,397
Newid yng ngwerth buddsoddiadau'r Gronfa Fynegrifol ar y farchnad		474,797	(138,056)
Newid yng ngwerth buddsoddiadau'r Gronfa Twf Amrywiol ar y farchnad		913,198	122,133
Llog arian cadw	8	752	822
Cynnydd net yn y Gronfa yn ystod y flwyddyn		3,540,555	1,525,730
Asedau net y Gynllun ar 1 Ebrill 2014		25,487,690	23,961,960
Asedau net y Cynllun ar 31 Mawrth 2015		29,028,245	25,487,690

Datganiad Asedau Net

		Fel ar 31 Mawrth 2015 £	Fel ar 31 Mawrth 2014 £
Buddsoddiadau			
Cronfa reoledig	7	12,832,902	11,603,052
Cronfa fynegrifol		2,942,770	2,328,226
Cronfa Twf Amrywiol		12,804,432	11,099,331
Asedau cyfredol	8	492,515	483,844
Rhwymedigaethau cyfredol	9	(44,374)	(26,763)
Asedau net y cynllun ar 31 Mawrth 2015		29,028,245	25,487,690

Dim ond crynhoi trafodion ac asedau net y cynllun y mae'r cyfrifon ac nid ydynt yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion eraill ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun.

Cymeradwywyd ar ran yr Ymddiriedolwyr ar 22 Mehefin 2015:

Llofnod




William Graham

Aelod Cynulliad

Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr (ar ran yr Ymddiriedolwyr)

Llofnod



Gareth Jones

Ymddiriedolwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 27 i 32 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon

01.1. Sail y gwaith paratoi

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir wrth baratoi Adroddiadau Ariannol ar Gyfrifon Cynlluniau Pensiwn, a ddiwygiwyd ym mis Mai 2007.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion ac asedau net y cynllun. Nid ydynt yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion eraill yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad actiwaraid yn ystyried y rhwymedigaethau hyn (gellir gweld datganiad yr actwari ar dudalennau 15 i 16).

01.2. Polisïau cyfrifyddu

Dyma brif bolisïau cyfrifyddu'r cynllun:

- cyfrifir cyfraniadau arferol a chyfraniadau gwirfoddol i brynu blynyddoedd ychwanegol yn ystod y flwyddyn y maent yn ddyledus.
- cyfrifir buddion ar y diwrnod y maent yn ddyledus a chyfrifir cyfraniadau a gaiff eu had-dalu pan gânt eu gwneud.
- mae trosglwyddo gwerthoedd o'r naill gynllun pensiwn i'r llall yn cynrychioli'r symiau a gafodd eu derbyn a'u talu yn ystod y flwyddyn i aelodau sydd wedi ymuno â'r Gronfa neu ei gadael.
- cyfrifir yr holl wariant arall yn y cyfnod sy'n berthnasol iddo.
- nodir buddsoddiadau ar yr un pris terfynol sy'n cael ei gyfrifo ar sail pris terfynol y gwariannau gwaelodol ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Gall hyn fod yn wahanol i'r pris a ddefnyddir ar gyfer prynu a gwerthu unedau.

01.3. Yr ysgrifenyddiaeth

Mae'r gost o ddarparu staff ar gyfer ysgrifenyddiaeth y Cynllun yn parhau i gael ei dalu'n uniongyrchol gan Gomisiwn y Cynulliad o dan amodau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunodd y Comisiwn a'r Ymddiriedolwyr arno. Amcangyfrifir mai £87,200 (£77,500 yn 2013-14) oedd y gost ar gyfer cyfnod y cyfrifon hyn.

01.4. Cyfraniadau i'w derbyn

	2014-15	2013-14
Mae'r cyfraniadau'n cynnwys:	£	£
Cyflogwr: cyfraniadau arferol	978,573	982,719
Aelodau: cyfraniadau arferol	402,934	404,902
: prynu blynyddoedd ychwanegol	16,107	10,754
	1,397,614	1,398,375

Cyfrannodd aelodau 10% i Gronni buddion ar sail deugeinfed a 6% i Gronni buddion ar sail hanner canfed a chyfrannodd Comisiwn y Cynulliad 23.8% o gyflogau pensiynadwy i'r Cynllun.

Parhaodd contractau dwy flynedd ychwanegol dros gyfnod o bedair blynedd yn ystod y flwyddyn ariannol a phrynwyd un flwyddyn ychwanegol drwy ddefnyddio cyfandaliad.

01.5. Buddion taladwy

	2014-15	2013-14
Mae'r cyfraniadau'n cynnwys:	£	£
Pensiynau	380,461	347,130
Cyfandaliadau ymddeol	0	259,610
Cyfandaliad marwolaeth	-	-
	380,461	606,740

01.6. Ffioedd proffesiynol

	2014-15	2013-14
	£	£
Ffioedd yr Actiwari	44,768	6,920
Ymgynghorwyr buddsoddi	16,348	6,494
Ffioedd archwilio	13,079	13,079
Ffioedd cyfreithiol	30,204	6,826
	104,399	33,319

Cynyddodd y ffioedd yr actiwari, ffioedd cyfreithiol a ffioedd yr ymgynghorwyr buddsoddi yn ystod y flwyddyn gan adlewyrchu'r gwaith o baratoi prisiad actiwaraid 2014, adolygu'r strategaeth fuddsoddi, cynnal adolygiad llawn o'r rheolau drafft ac effaith Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gynllun pensiwn y Pumed Cynulliad.

Actiwari'r Cynllun a'r Tîm Buddsoddi a Risg ymgymrodd â gwaith Adran Actiwari'r Llywodraeth. Bob blwyddyn, bydd yr Adran Actiwari'n adolygu'r ffioedd ac eleni, rhoddodd nodyn credyd i'r Cynllun. O ganlyniad, bu gostyngiad o £6,950 yn y ffioedd yr actiwari, a gostyngiad o £155 yn ffioedd yr ymgynghorwyr buddsoddi.

01.7. Buddsoddiadau

Mae'r holl fuddsoddiadau'n cael eu cadw yng Nghronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford.

a) Cronfa Bensiwn Reoledig Baillie Gifford		31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2014
	Unedau	£	£
Gwerth ar y farchnad ar 1 Ebrill 2014	1,582,004	11,603,052	10,825,655
Prisiau prynu	-	-	-
Gwerthwyd	-	-	-
Newid yn y gwerth ar y farchnad		1,286,085	835,614
Treuliau Rheolwyr Buddsoddi		(53,842)	(50,380)
Brocer a threuliau eraill		<u>(2,393)</u>	<u>(7,837)</u>
Newid net yn y gwerth ar y farchnad		1,229,850	777,397
Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth 2015	1,582,004	12,832,902	11,603,052
Gwerth llyfr ar 31 Mawrth 2015		4,808,154	4,808,154

b) Cronfa Bensiwn Fynegrifol Baillie Gifford		<u>31 Mawrth 2015</u>	<u>31 Mawrth 2014</u>
	Unedau	£	£
Gwerth y farchnad ar 1 Ebrill 2014	973,542	2,328,226	2,345,540
Prisiau prynu	54,248	139,748	120,742
Gwerthwyd	-	-	-
Newid yn y gwerth ar y farchnad		481,935	(132,173)
Treuliau Rheolwyr Buddsoddi		(6,610)	(5,657)
Brocer a threuliau eraill		<u>(529)</u>	<u>(226)</u>
Newid net yn y gwerth ar y farchnad		474,797	(138,056)
Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth 2015	1,027,790	2,942,770	2,328,226
Gwerth llyfr ar 31 Mawrth 2015		1,820,344	1,680,596

c) Cronfa Bensiwn Twf Amrywiol Baillie Gifford		<u>31 Mawrth 2015</u>	<u>31 Mawrth 2014</u>
	Unedau	£	£
Gwerth ar y farchnad ar 1 Ebrill 2014	6,181,405	11,099,331	10,292,996
Prisiau prynu	386,452	791,903	684,202
Gwerthwyd	-	-	-
Newid yn y gwerth ar y farchnad		1,019,058	206,130
Treuliau Rheolwyr Buddsoddi		(78,192)	(63,822)
Brocer a threuliau eraill		<u>(27,668)</u>	<u>(20,175)</u>
Newid net yn y gwerth ar y farchnad		913,198	122,133
Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth	6,606,693	12,804,432	11,099,331
Gwerth llyfr ar 31 Mawrth 2015		9,970,314	9,178,411

Dangosir dyraniad yr asedau yn Adroddiad Buddsoddi Rheolwyr y Gronfa ar dudalen 8. Ni ellir pennu'r incwm buddsoddi ar gyfer cronfeydd sylfaenol Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan nad oes dosbarthiadau o'r gronfa; mae'r holl incwm ac unrhyw adenillion treth yn cael eu cyfuno gan gynyddu gwerth yr unedau.

Y ffioedd rheoli yw 0.45% y flwyddyn yn achos y Gronfa Bensiwn Reoledig, 0.65% yn achos y Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol a 0.25% yn achos y Gronfa Bensiwn Fynegrifol. Cyfanswm y treuliau, gan gynnwys costau masnachu uniongyrchol yw 0.49% yn achos y Gronfa Bensiwn Reoledig, 0.91% yn achos y Gronfa Bensiwn Twf Amrywiol ac 0.27% yn achos y gronfa Bensiwn Fynegrifol a chânt eu tynnu o werth y cronfeydd a'u hadlewyrchu ym mhris uned y cronfeydd.

01.8. Asedau cyfredol

	31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2014
	£	£
Cyfrif cadw'r Trysorlys ar 1 Ebrill 2014	350,509	385,080
Ynghyd â llog ar gyfer y flwyddyn	752	822
	351,261	385,902
(Alldyniadau)/adneuon	1,302	(35,410)
Symudiadau mewn llog cronedig	9	17
Cyfanswm Cyfrif Cadw'r Trysorlys	352,572	350,509
Arian parod yn y banc	24,124	15,756
Cyfraniadau sy'n ddyledus gan y cyflogwr	115,430	117,190
Dyledwyr eraill a rhagdaliadau	389	389
	492,515	483,844

Mae cyfraniadau sy'n ddyledus gan y cyflogwr yn cyfeirio at fis Mawrth 2015 ac fe'u talwyd yn llawn i'r cynllun cyn y terfyn amser statudol, sef 19 Ebrill 2015.

01.9. Rhwymedigaethu cyfredol

	31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2014
	£	£
Credydwy'r symiau'n daladwy cyn pen blwyddyn	(44,374)	(26,763)
	(44,374)	(26,763)

Mae 'Credydwy'r symiau'n daladwy cyn pen blwyddyn' yn cyfeirio at ddyledion am waith a wnaed ond ni dderbyniwyd yr anfonebau erbyn diwedd y flwyddyn a rhwymedigaethau dyledus sydd heb eu talu.

01.10. Costau gweinyddu

	31 Mawrth 2015	31 Mawrth 2014
	£	£
Hyfforddiant	-	-
Costau gweinyddu eraill	2,751	3,580
	2,751	3,580

Cafwyd hyfforddiant gan actiwari'r Cynllun ym mis Rhagfyr a £3,251.50 oedd y gost. Fodd bynnag, gan fod Adran Actiwari'r Llywodraeth yn adolygu eu ffioedd bob blwyddyn, rhoddodd nodyn credyd i'r Cynllun ac, o ganlyniad, ni chostiodd yr hyfforddiant uchod ddim.

01.11. Trafodion partïon cysylltiedig

Yn ystod cyfnod y cyfrif mae'r Cynllun wedi cael trafodion perthnasol â Chomisiwn y Cynulliad, a ystyrir yn barti cysylltiedig.

Datgelir y trafodion hyn yn Nodyn 4 sy'n cyd-fynd â'r cyfrifon hyn. Nid oes yr un o ymddiriedolwyr na rheolwyr y Cynllun, nac unrhyw un o staff rheoli allweddol neu bartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion o bwys â'r Cynllun yn ystod y flwyddyn.

01.12. Digwyddiadau ar ôl dyddiad y cyfnod adrodd

Bu digwyddiad nas addaswyd ar ei gyfer ar ôl y dyddiad y llofnodwyd yr Adroddiad Blynnyddol a'r Cyfrifon gan yr Ymddiriedolwyr. Ers hynny, mae'r marchnadoedd wedi bod yn ansfydlog oherwydd yr ansicrwydd ynghylch sefyllfa ariannol Gwlad Groeg, a'i pherthynas ag Ardal yr Ewro. Oherwydd yr ansicrwydd hwn, mae gwerth y buddsoddiadau ar y farchnad wedi disgyn yn sylweddol (tua 2%) ers dyddiad y fantolen. Mae'r Ymddiriedolwyr yn credu mai gostyngiad dros dro yw hwn ac oherwydd bod

y Cynllun yn un hirdymor, mae ganddynt reswm i gredu y bydd gwerth yr arian a fuddsoddwyd yn codi eto gydag amser.

Datganiad cydymffurfio

Diben y datganiad cydymffurfio hwn yw nodi'r wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Beth yw Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu buddion i Aelodau'r Cynulliad ac i Ddeiliaid Swyddi. Mae pob Aelod o'r Cynulliad yn aelodau o'r Cynllun o'r dyddiad y maent yn ymuno â'r Cynulliad, oni bai eu bod yn dewis peidio â gwneud hynny.

Dyma brif fuddion y cynllun:

- pensiwn o un rhan o ddeugain neu un rhan o hanner cant o'r cyflog terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth cyn ymddeol yn 65 oed;
- pensiwn cynnar i aelodau a ymunodd cyn 6 Ebrill 2006, sy'n daladwy pan fyddant yn ymddeol cyn y byddant yn 65 oed, os yw'r aelod wedi cyrraedd 50 oed (gellir lleihau'r pensiwn yn ôl oed/hyd gwasanaeth);
- pensiwn cynnar i aelodau a ymunodd ar ôl 6 Ebrill 2006, sy'n daladwy pan fyddant yn ymddeol cyn y byddant yn 65 oed, os yw'r aelod wedi cyrraedd 55 oed (caiff y pensiwn ei leihau);
- pensiwn wrth ymddeol ar unrhyw adeg oherwydd gwaeldd;
- pensiwn gŵr gweddw/gwraig weddw/partner cyfwerth â pump rhan o wyth o bensiwn yr aelod (yn seiliedig ar ddarpar wasanaeth os yw'n marw tra bydd yn Aelod o'r Cynulliad);
- pensiwn plant (ar gyfradd o chwarter pensiwn sylfaenol neu bensiwn tebygol yr Aelod ar gyfer un plentyn neu dair rhan o wyth ar gyfer dau blentyn neu fwy);
- mae pensiynau sy'n cael eu talu'n cael eu mynegrifo i'r newidiadau yn y Gorchymyn Cynyddu Pensiynau (Adolygu);
- cyfandaliad marwolaeth mewn gwasanaeth cyfwerth â chyflog pedair blynedd ynghyd â darpariaeth ar gyfer mwy nag un enwebai;

Mae'r buddion dewisol yn cynnwys:

- prynu blynyddoedd ychwanegol;
- trosglwyddo hawliau pensiwn (i mewn ac allan o'r cynllun);

Perthynas â Chynllun Ymddeol y Wladwriaeth

- Mae'r Cynllun wedi'i gcontractio allan o Gynllun Ail Bensiwn y Wladwriaeth a bydd Aelodau felly'n talu cyfradd is o gyfraniad Yswiriant Gwladol.
- Mae'r pensiwn y mae Aelodau sydd wedi ymddeol yn ei dderbyn o'r Cynllun hwn yn ychwanegol at unrhyw hawl i arian gan Gynllun Ymddeol y Wladwriaeth.

Sut y penodir Ymddiriedolwyr y Cynllun

- Mae Atodlen 1 o Reolau'r Cynllun yn nodi 'na fydd mwy' na chwech o Ymddiriedolwyr.
- Ar unrhyw adeg, bydd un o'r chwe Ymddiriedolwr yn bensiynwr, os oes unrhyw un yn fodlon sefyll. Os ceir mwy nag un enwebiad, cynhelir balot i ddewis yr unigolyn a gaiff y nifer fwyaf o bleidleisiau ymhlith y pensiynwyr sy'n aelodau o'r Cynllun.

- Dim ond Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru y gellir ei benodi fel Ymddiriedolwr, ond ni fydd Ymddiriedolwr yn peidio â bod yn Ymddiriedolwr os yw'n rhoi'r gorau i fod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru benodi neu ddiswyddo unrhyw Ymddiriedolwr. Gall Ymddiriedolwr ymddiswyddo o'r swydd drwy ysgrifennu at Lywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr

Fel arfer, cynhelir cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr unwaith yn ystod pob un o sesiynau'r Cynulliad, ac weithiau mae cyfarfodydd ychwanegol at ddibenion penodol. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd tri chyfarfod arferol o'r Ymddiriedolwyr.

Caiff yr Ymddiriedolwyr weithredu'n ôl penderfyniad y mwyafrif sy'n bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r Ymddiriedolwyr lle ceir cworwm, a'r cworwm ar gyfer unrhyw gyfarfod o'r Ymddiriedolwyr fydd tri.

Penderfyniad ynghylch anghydfod mewnol

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi gweithredu'r Penderfyniad ynghylch Anghydfod Mewnol yn unol â gofynion Deddf Pensiynau 1995. Gellir cael manylion y weithdrefn gan yr adran Gwasanaethau Ariannol.

Cynghorwyr y Cynllun a benodwyd gan yr Ymddiriedolwyr mewn perthynas â'r Gronfa ar 31 Mawrth 2015

Actiwari	Actiwari'r Llywodraeth
Archwilydd	Archwilydd Cyffredinol Cymru
Bancwyr	Barclays Bank ccc
Rheolwr Buddsoddi Cyfyngedig	Baillie Gifford Life
Cynghorwr Cyfreithiol	Eversheds
Cyfrifyddion y Cynllun	Ysgrifenyddiaeth y Cynllun, Comisiwn y Cynulliad

Nid yw'r penodiadau wedi newid ers y cyfnod blaenorol.

Safon ariannu

Mae'r Cynllun wedi'i eithrio rhag gofynion Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Ariannu Cynllun) 2005. Fodd bynnag, yn dilyn cyngor gan gynghorwyr proffesiynol y Cynllun, mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu mabwysiadu'r rheoliadau perthnasol fel mater o arfer da lle bo hynny'n ymarferol.

Statws treth y Cynllun

Mae'r Cynllun yn gynllun pensiwn statudol o dan Adran 611A o Ddeddf Trethi Incwm a Chorfforaethol 1988, fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 12 i Ddeddf Cyllid 1999, ac mae'n gynllun cofrestredig tybiedig o dan Ddeddf Pensiynau 2004 ac yn 'gynllun cymeradwy' at ddibenion derbyn gwerthoedd trosglwyddo.

Rheolwyr buddsoddi

Mae cyfrifoldebau Baillie Gifford yn cynnwys:

- cyflawni'r holl swyddogaethau sy'n ymwneud â rheoli'r Gronfa o ddydd i ddydd;
- dyrannu'r portffolio cytbwys rhwng categorïau o fuddsoddiadau a dethol stociau unigol ym mhob categori o fuddsoddiadau;

- iii. penderfynu a yw'n briodol cadw neu ryddhau buddsoddiadau unigol yn y portffolio; ac
- iv. arfer y pwerau buddsoddi mewn modd a fydd yn gweithredu'r egwyddorion yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (SIP), os yw hynny'n ymarferol ac, yn benodol, ystyried pa mor addas ac amrywiol yw'r buddsoddiadau o fewn y canllawiau a bennir gan yr Ymddiriedolwyr.

Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVCs)

Caiff cyfraniadau blynyddoedd ychwanegol eu buddsoddi gyda'r cyfraniadau arferol yng nghronfeydd y Cynllun.

